Committed workforce

- Volunteers are vital to the running of Welsh sport, and will be vital to delivering our Vision for Sport in Wales. The economic value of volunteering in sport in Wales is over £160m per year.
- There is sufficient demand from people interested in volunteering to meet the target set out in the *Coaching Strategy*, but most potential volunteers are not proactive and will need to be asked to volunteer by others.
- Wales' sporting workforce—at all levels—does not reflect the population of Wales, however. Instead it reflects the population of sports club members in Wales.
- The workforce will need to take a more customer-focused approach to developing and delivering sport if we are to significantly increase participation, particularly in club sport.

The importance of sports volunteering

Volunteers are fundamental to the delivery and development of organised sport in Wales, inspiring and supporting participants from elite athletes to those involved in grassroots community sport.

At present, around five per cent of Welsh adults volunteer in sport. The time that sports volunteers devote to sport in Wales has an economic value of over £160 million a year, and the hours worked by the estimated volunteer workforce in Welsh sport are equivalent to nearly 10,000 full-time employees added to the sports labour market [1].

This is a significant contribution to Wales' sporting workforce: it is estimated that 23,200 people are in paid employment within Welsh sport [2].

DOUBLING SPORTS' VOLUNTEER WORKFORCE
The effect of meeting all interest in volunteering



Source: Active Adults Survey 2008-9
Base: All adults aged 15 and over in Wales

There is a clear link between the level of sports volunteering and sports participation in countries across the European Union. Those countries with high rates of volunteering support higher levels of participation [3].

For this reason, our Coaching Strategy sets ambitious targets for doubling the number of adults volunteering in sport by 2016, to 10% of all adults. Results from our Active Adults Survey suggest that if sport engaged all adults that expressed an interest in volunteering in sport, we would achieve our target.

A representative workforce?

Who volunteers?

Results from the Active Adults Survey [4] show that:

- Parents of school-age children, sport participants and young people – particularly students – are amongst the groups most likely to volunteer.
- Sports participants are more likely to volunteer, and those motivated to participate for competition, to learn new skills, for fun, or for socialising are more likely to volunteer than those who take part in sport primarily for health reasons.
- Men and women volunteer in different settings and undertake differing roles. Although both men and women are equally likely to volunteer in after-school sports clubs, men are much more likely to volunteer in community sports clubs. Men are also three times more likely than women to coach.
- Rates of sports volunteering are higher amongst 'higher' social grades; this is true both for school and community sports clubs.

sportwales chwaraeoncymru
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

The four main routes into sports volunteering are set out on the right of this page. Sport Wales' research into volunteering in Wales has indicated that most people 'fall into' volunteering in sport. Most others volunteer because they were asked to because of some existing attachment to an activity: for example, because they already participate, are a parent on the sideline, or want to give something back to the community.

While some local authorities and voluntary service organisations recruit volunteers for deployment into clubs and other sporting activities (such as events), most volunteers react to demand rather than proactively seeking opportunities to volunteer. The main exception to this is students.

Asking people to volunteer is therefore a fruitful approach to recruiting volunteers, but as in most cases volunteers are recruited from around clubs, the profile of volunteers will reflect the profile of the social networks of those already within clubs. As sports clubs are predominantly male and from higher social classes, the volunteer base is also therefore male and from higher social classes.

Club, local authorities and governing bodies will need to be more inclusive and considered in their volunteer recruitment if this pattern is to be broken, and a broader base of volunteer recruited.

Interestingly, a similar gender profile can also be seen amongst Chairs and Board members of Wales' national governing bodies of sport. There is therefore a wider need to reflect society in the leadership and delivery of sport in Wales at all levels.

REPRESENTATION IN WELSH SPORT

75% 75% of Wales' volunteer coaches, Chairs of National Governing Bodies of Sport, and adult community sport club members are men.

25% Just 25% of coaches, NGB Chairs and sports adult club members are women.

Source: Active Adults Survey 2008-9; Sport Wales management information

THE FOUR MAIN ROUTES INTO SPORTS VOLUNTEERING [4]

Students

Looking for experience and development opportunities that come with sports volunteering (particularly coaching)

- Typically aged between 18 and 25; over half are male
- Usually coach rather than taking on other roles
- Motivated by a need for experience, or to develop a CV
- Aspire to a professional sport-related career
- Actively seek out opportunities to volunteer

Sport lovers

As they become older, can no longer compete through injury, or have reached advanced levels of expertise, so become involved in coaching or volunteering

- Wide age range, from 20 to 55
- More likely to coach, but older individuals may take on other roles
- Motivated by a passion for their sport
- May aspire to progress further as a coach
- More about creating an opportunity than seeking one

Active parents

Already on the sidelines, they get involved when the club/class expresses a need

- Typically aged between 30 and 45
- More likely to coach but take on a variety of roles
- Motivated to spend time with, and support, their children
- Little desire to progress—involved because they were asked

Skilled volunteers

Hear about a club's needs through friends or family, and respond to that need, undertaking tasks such as administration or accounting

- Typically aged 45 and above
- Tend to take on non-coaching roles
- Motivated by a desire to give something back to the community
- Tend to be asked through their existing social networks

Source: Sport Wales (2010). *Sports Volunteering in Wales: a Research Summary.*

Support for coaches and volunteers

Coaches and volunteers generally feel well-supported in their day-to-day volunteering tasks (assuming, of course that those tasks are manageable in the first place). Most drop-out from coaching is caused by personal reasons not related to volunteering [5].

Combining Sport Wales' own research into sports volunteers, as well as a recent *sportscoachUK* study [5], a number of issues arise where additional support is needed by coaches and volunteers:

- **Help when trying to grow their club.** Volunteers indicated that while could usually manage existing tasks, growing their club would require additional support, both from governing bodies and local authorities, and from new volunteers. Recruiting these volunteers, however, also takes time.
- **Mentoring opportunities and local support networks.** Coaches in particular would welcome more structured opportunities to learn from more experienced coaches, as well as from peers.
- **More access to funding for courses.**

A customer-focused approach

Coaches

The paper on *Thriving Clubs* discusses the impact that the motivations of coaches can have on participants, and on participant retention over time. Coaches therefore need to be encouraged take a child-centred approach to delivering sport—although this may take time, as changing individuals' motivations for being involved can take time, the potential rewards for participation are significant.

Leisure centre staff

Another sizable element of Wales' sporting workforce is staff at Wales' leisure centre staff. From the receptionist at the front desk to those delivering sessions, and the managers setting priorities for club and recreational access, those running leisure centres have a crucial role to play in supporting participation and club development.

Partners have rightly signalled the importance of all leisure centre staff in their various roles, and it is vital that they are supported and training to deliver high-quality experiences to all participants, regardless of ability or background [6].

Challenges and issues

- **Volunteers are vital to the running of Welsh sport, and will be vital to delivering our Vision for Sport in Wales.**
- **We cannot expect new volunteers to come forward: a much more coordinated approach to recruiting and retaining volunteers is needed across Welsh sport.**
- **Wales' sporting workforce—at all levels—does not reflect the population of Wales, however. Instead it reflects the population of sports club members in Wales. Redressing this imbalance will help to make sport more inclusive.**
- **The development of local coaching networks may have both to support and upskill coaches involved in sport. This could be achieve through a decentralised approach to organising sport more generally.**
- **The whole of Wales' sporting workforce will be required to take a more customer-focused approach to the delivery of sport.**

Going forward...

- **How can clubs making 'asking' part of their everyday processes?**
- **How could clubs go beyond their traditional networks to reach out to a broader base of volunteer?**
- **How do we persuade volunteer coaches to become more child-centred in their approach to delivering sport?**
- **How do we build our future workforce?**

References

1. Sport Wales (2011). *The Value of Sports Volunteering in Wales*.
2. Sports Council for Wales (2008). *The Economic Importance of Sport in Wales*.
3. European Commission (2010). *Eurobarometer 72.3, Sport and Physical Activity*.
4. Sport Wales (2010). *Sports Volunteering in Wales: a Research Summary.*
5. sportscoachUK (2012). *Coach Tracking Study: a four-year study of coaching in the UK*. Leeds: National Coaching Foundation.
6. Brightpurpose Consulting (2012). *Evidence to Support the Community Strategy for Sport*. Report prepared for Sport Wales.

Gweithlu ymroddedig

- Mae gwirfoddolwyr yn allweddol i reoli chwaraeon Cymru a byddant yn allweddol i gyflwyno ein Gweledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru. Mae gwerth economaidd gwirfoddoli mewn chwaraeon yng Nghymru yn fwy na £160m y flwyddyn.
- Ceir digon o alw gan bobl sydd â diddordeb mewn gwirfoddoli i gyrraedd y targed sydd wedi'i bennu yn y *Strategaeth Hyfforddi*; fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ddarpar wirfoddolwyr yn cynnig eu gwasanaeth ac maent yn disgwyl i eraill ofyn iddynt wirfoddoli.
- Nid yw gweithlu chwaraeon Cymru – ar bob lefel – yn adlewyrchu poblogaeth Cymru, er hynny. Yn hytrach, mae'n adlewyrchu poblogaeth yr aelodau o glybiau chwaraeon yng Nghymru.
- Bydd rhaid i'r gweithlu ddefnyddio dull o weithredu gyda mwy o ffocws ar gwsmeriaid er mwyn datblygu a chyflwyno chwaraeon os ydym ni am gynyddu cyfranogiad yn sylweddol, yn enwedig mewn chwaraeon clwb.

Pwysigrwydd gwirfoddoli mewn chwaraeon

Mae gwirfoddolwyr yn rhan allweddol o gyflwyno a datblygu chwaraeon trefnus yng Nghymru, gan ysbrydoli a chefnogi cyfranogwyr, o athletwyr elitaidd i'r rhai sy'n ymwneud â chwaraeon cymunedol ar lawr gwlad.

Ar hyn o bryd, mae rhyw bump y cant o oedolion Cymru'n gwirfoddoli mewn chwaraeon. Mae'r amser mae gwirfoddolwyr chwaraeon yn ei roi i chwaraeon yng Nghymru'n cyfateb i werth economaidd o fwy na £160 miliwn y flwyddyn ac mae'r oriau a weithir gan y gweithlu gwirfoddol yn y byd chwaraeon yng Nghymru'n cyfateb i bron i 10,000 o weithwyr llawn amser a ychwanegir at y farchnad lafur chwaraeon.[1]

Mae hwn yn gyfraniad arwyddocaol i weithlu chwaraeon Cymru: credir bod 23,200 o bobl mewn gwaith cyflogedig yn y byd chwaraeon yng Nghymru[2].

DYBLU'R GWEITHLU O WIRFODDOLWYR CHWARAEON
Effaith bodloni'r holl ddiddordeb mewn gwirfoddoli



Ffynhonnell : Arolwg 2008-9 ar Oedolion Egnïol
Sylfaen: *Pob oedolyn 15 oed a hŷn yng Nghymru*

Ceir cyswllt clir rhwng lefel y gwirfoddoli mewn chwaraeon a'r cyfranogiad mewn chwaraeon mewn gwledydd ledled yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r gwledydd hynny sydd â chyfraddau uwch o wirfoddoli'n cefnogi lefelau uwch o gyfranogiad[3].

Oherwydd hyn, mae ein Strategaeth Hyfforddi ni'n pennu targedau uchelgeisiol ar gyfer dyblu nifer yr oedolion sy'n gwirfoddoli mewn chwaraeon erbyn 2016, i 10% o'r holl oedolion. Mae canlyniadau ein Harolwg ar Oedolion Egnïol yn awgrymu y byddai modd i ni gyrraedd ein targed pe bai chwaraeon yn cynnwys yr holl oedolion a fynegodd ddiddordeb mewn gwirfoddoli mewn chwaraeon.

Gweithlu cynrychioliadol?

Pwy sy'n gwirfoddoli?

Mae canlyniadau'r Arolwg ar Oedolion Egnïol yn dangos y canlynol:

- Mae rhieni plant oedran ysgol, cyfranogwyr chwaraeon a phobl ifanc – yn enwedig myfyrwyr – ymhlith y grwpiau sydd fwyaf tebygol o wirfoddoli.
- Mae cyfranogwyr chwaraeon yn fwy tebygol o wirfoddoli, a'r rhai a gymhellir i gymryd rhan er mwyn cystadlu, i ddysgu sgiliau newydd, am hwyl, neu i gymdeithasu, na'r rhai sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon am resymau iechyd yn unig.
- Mae dynion a merched yn gwirfoddoli mewn gwahanol leoliadau ac yn derbyn swyddogaethau gwahanol. Er bod dynion a merched yr un mor debygol o wirfoddoli mewn clybiau chwaraeon ar ôl ysgol, mae dynion yn llawer mwy tebygol o wirfoddoli mewn clybiau chwaraeon cymunedol. Hefyd mae dynion deirgwaith yn fwy tebygol o hyfforddi na merched.
- Mae cyfraddau'r gwirfoddoli mewn chwaraeon yn uwch ymhlith y graddau cymdeithasol 'uwch'; mae hyn yn wir am glybiau chwaraeon ysgolion a chymunedol.

sportwales chwaraeoncymru
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

Mae'r pedwar prif lwybr at wirfoddoli mewn chwaraeon wedi'u datgan ar y dde ar y dudalen hon. Mae gwaith ymchwil Chwaraeon Cymru i wirfoddoli yng Nghymru wedi dynodi bod y rhan fwyaf o bobl yn 'taro ar' wirfoddoli mewn chwaraeon. Mae'r rhan fwyaf o'r lleill yn gwirfoddoli am fod rhywun wedi gofyn iddyn nhw wneud oherwydd rhyw gyswllt eisoes â gweithgaredd: er enghraifft, am eu bod nhw'n cymryd rhan eisoes, yn rhiant ar y llinell ochr, neu eisiau rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned.

Er bod rhai awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol yn recriwtio gwirfoddolwyr i'w defnyddio mewn clybiau ac mewn gweithgareddau chwaraeon eraill (fel cystadlaethau), mae'r rhan fwyaf o wirfoddolwyr yn ymateb i alw yn hytrach na mynd ati i chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli. Y prif eithriad i hyn yw myfyrwyr.

Felly, mae gofyn i bobl wirfoddoli'n ffordd dda o recriwtio gwirfoddolwyr ond, fel yn y rhan fwyaf o achosion, mae gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio mewn clybiau a bydd proffil y gwirfoddolwyr yn adlewyrchu proffil rhwydweithiau cymdeithasol y rhai sydd mewn clybiau eisoes. Gan mai dynion a geir yn bennaf mewn clybiau chwaraeon, o ddosbarthiadau cymdeithasol uwch, mae'r sylfaen o wirfoddolwyr hefyd yn ddynion ac o ddosbarthiadau cymdeithasol uwch.

Bydd rhaid i glybiau, awdurdodau lleol a chyrff rheoli fod yn fwy cynhwysol ac ystyried wrth recriwtio gwirfoddolwyr sut i dorri'r patrwm hwn a recriwtio sylfaen ehangach o wirfoddolwyr.

Yn ddiddorol, gwelir proffil rhyw tebyg ymhlith Cadeiryddion ac Aelodau Bwrdd cyrff rheoli chwaraeon cenedlaethol Cymru. Felly, mae angen adlewyrchu cymdeithas yn ehangach yn y swyddogaethau arwain ac wrth gyflwyno chwaraeon ar bob lefel yng Nghymru.

CYNRYCHIOLAETH YN Y BYD CHWARAEON YNG NGHYMRU

75%

Mae 75% o hyfforddwyr gwirfoddol Cymru, Cadeiryddion y Cyrff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol a'r aelodau o glybiau chwaraeon cymunedol i oedolion yn ddynion.

25%

Dim ond 25% o hyfforddwyr, Cadeiryddion CRhChC ac aelodau o glybiau oedolion sy'n ferched.

Ffynhonnell: Arolwg 2008-9 ar Oedolion Egnïol; gwybodaeth r heoli Chwaraeon Cymru

Y PEDWAR PRIF LWYBR AT WIRFODDOLI MEWN CHWARAEON [4]

Myfyrwyr

Yn chwilio am y profiad a'r cyfleoedd datblygu a geir drwy wirfoddoli mewn chwaraeon (yn arbennig hyfforddi)

- Rhwng 18 a 25 oed fel rheol; mwy na'u hanner yn wrywaidd
- Hyfforddi fel rheol, yn hytrach na chyflawni unrhyw swyddogaethau eraill
- Y cymhelliant yw'r angen am brofiad, neu ddatblygu CV
- Dyhead i ddilyn gyrfa broffesiynol sydd â chyswllt â chwaraeon
- Yn chwilio am gyfleoedd i wirfoddoli

Pobl hoff iawn o chwaraeon

Wrth iddynt fynd yn hŷn, nid ydynt yn gallu cystadlu oherwydd anaf, neu maent wedi cyrraedd lefelau arbenigedd uchel iawn ac felly'n dechrau hyfforddi neu wirfoddoli

- Ystod oedran eang, o 20 i 55
- Mwy tebygol o hyfforddi, ond gall unigolion hŷn dderbyn swyddogaethau eraill
- Y cymhelliant yw'r angerdd dros eu camp
- Efallai eu bod eisiau datblygu ymhellach fel hyfforddwr
- Mwy am greu cyfle na cheisio un

Rhieni egnïol

Ar y llinell ochr eisoes, ac yn cymryd rhan pan mae'r clwb/dosbarth yn mynegi angen

- Rhwng 30 a 45 fel rheol
- Mwy tebygol o hyfforddi ond yn derbyn swyddogaethau amrywiol
- Y cymhelliant yw treulio eu hamser gyda'u plant a'u cefnogi
- Dim llawer o ddyhead i wneud cynnydd – yn cymryd rhan am bod rhywun wedi gofyn iddynt

Gwirfoddolwyr medrus

Clywed am anghenion y clwb drwy ffrindiau neu deulu ac yn ymateb i'r angen hwnnw, gan ymgymryd â thasgau fel gweinyddu neu gyfrifo

- Yn 45 oed neu'n hŷn fel rheol
- Tueddu i dderbyn swyddi heb fod yn hyfforddi
- Y cymhelliant yw dyhead i roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned
- Y duedd yw i'r cais am wirfoddoli ddod drwy eu rhwydweithiau cymdeithasol presennol

Cefnogaeth i hyfforddwyr a gwirfoddolwyr

Yn gyffredinol, mae hyfforddwyr a gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda yn eu tasgau gwirfoddoli o ddydd i ddydd (gan gymryd yn ganiataol, wrth gwrs, bod modd iddynt gyflawni'r tasgau hynny yn y lle cyntaf). Y rheswm pennaf dros roi'r gorau i hyfforddi oedd am resymau personol heb unrhyw gyswllt â'r gwirfoddoli ei hun[5].

Wrth gyfuno ymchwil Chwaraeon Cymru ei hun i wirfoddolwyr chwaraeon, yn ogystal ag astudiaeth *sportscoachUK*[5], mae sawl mater yn codi lle mae angen cefnogaeth ychwanegol ar hyfforddwyr a gwirfoddolwyr:

- **Help wrth geisio sicrhau twf yn eu clwb.** Dywedodd y gwirfoddolwyr eu bod yn gallu ymdopi â'u tasgau presennol ond er mwyn sicrhau twf yn eu clwb, byddai angen cefnogaeth ychwanegol, gan gyrff rheoli ac awdurdodau lleol, a chan wirfoddolwyr newydd. Fodd bynnag, mae recriwtio'r gwirfoddolwyr hyn yn cymryd amser hefyd.
- **Cyfleoedd mentora a rhwydweithiau cefnogi lleol.** Byddai hyfforddwyr, yn arbennig, yn croesawu mwy o gyfleoedd strwythuredig i ddysgu gan hyfforddwyr mwy profiadol, a chan gydweithwyr.
- **Mwy o fynediad at gyllid ar gyfer cyrsiau.**

Dull o weithredu sydd â'i ffocws ar y cwsmer

Hyfforddwyr

Mae'r papur ar Glybiau Ffyniannus yn trafod yr effaith y gall cymell hyfforddwyr ei gael ar gyfranogwyr, ac ar ddal gafael ar gyfranogwyr dros amser. Felly mae'n rhaid annog hyfforddwyr i roi ffocws ar blant wrth gyflwyno chwaraeon – ond gall hyn gymryd amser, a gall newid cymhelliant yr unigolion dros gymryd rhan gymryd amser; mae'r budd posibl i gyfranogiad yn sylweddol.

Staff canolfannau hamdden

Elfen bwysig arall o weithlu chwaraeon Cymru yw staff y canolfannau hamdden. O'r derbynnydd wrth y ddesg flaen i'r rhai sy'n cyflwyno'r sesiynau a'r rheolwyr sy'n pennu blaenoriaethau ar gyfer mynediad clwb a hamdden, mae gan y rhai sy'n rheoli canolfannau hamdden ran allweddol i'w chwarae mewn cefnogi cyfranogiad a datblygu clybiau.

Mae partneriaid wedi tynnu sylw at bwysigrwydd staff canolfannau hamdden a'u dyletswyddau amrywiol, ac mae'n hanfodol eu bod yn cael eu cefnogi a'u hyfforddi i gyflwyno profiadau o safon uchel i bob cyfranogwr, waeth beth yw eu gallu neu eu cefndir[6].

Yr her a'r rhwystrau

- **Mae gwirfoddolwyr yn rhan allweddol o redeg Chwaraeon Cymru a byddant yn allweddol wrth gyflwyno Ein Gweledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru.**
- **Ni allwn ddisgwyl i wirfoddolwyr newydd gamu i'r adwy: mae angen dull llawer mwy cydlynol o recriwtio a dal gafael ar wirfoddolwyr ledled chwaraeon Cymru.**
- **Nid yw gweithlu chwaraeon Cymru – ar bob lefel – yn adlewyrchu poblogaeth Cymru, er hynny. Yn hytrach, mae'n adlewyrchu poblogaeth yr aelodau o glybiau chwaraeon yng Nghymru. Bydd rhoi sylw i'r anghydbwysedd hwn yn helpu i wneud chwaraeon yn fwy cynhwysol.**
- **Gall datblygu rhwydweithiau hyfforddi lleol gefnogi a gwella sgiliau'r hyfforddwyr sy'n ymwneud â chwaraeon. Gellid cyflawni hyn drwy ddull wedi'i ddatganoli o drefnu chwaraeon yn fwy cyffredinol.**
- **Sydd yn ofynnol i weithlu chwaraeon Cymru gyfan fabwysiadu dull o weithredu sydd â mwy o ffocws ar y cwsmer wrth gyflwyno chwaraeon.**

Symul ymlaen...

- **Sut gall clybiau wneud 'gofyn' yn rhan o'u prosesau bob dydd?**
- **Sut gall clybiau fynd y tu hwnt i'w rhwydweithiau traddodiadol i estyn allan at sylfaen ehangach o wirfoddolwyr?**
- **Sut mae darbwyllo hyfforddwyr gwirfoddol i roi mwy o ffocws ar blant yn eu dull o gyflwyno chwaraeon?**
- **Sut mae creu ein gweithlu ar gyfer y dyfodol?**

Cyfeiriadau

1. Chwaraeon Cymru (2011). *Gwerth Gwirfoddoli Mewn Chwaraeon yng Nghymru*.
2. Cyngor Chwaraeon Cymru (2008). *Pwysigrwydd Economaidd Chwaraeon yng Nghymru*.
3. Y Comisiwn Ewropeaidd (2010). *Eurobarometer 72.3, Sport and Physical Activity*.
4. Chwaraeon Cymru (2010). *Gwirfoddoli Mewn Chwaraeon yng Nghymru: Crynodeb Ymchwil.*
5. sportscoachUK (2012). *Coach Tracking Study: a four-year study of coaching in the UK*. Leeds: National Coaching Foundation.
6. Brightpurpose Consulting (2012). *Tystiolaeth i Gefnogi'r Strategaeth Gymunedol ar gyfer Chwaraeon*. Adroddiad a baratowyd ar gyfer Chwaraeon Cymru.